

CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FERCHER
8 HYDREF 2014 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL

YN BRESENNOL

Cyng I Roberts JP, R G Parry, A Michael, S Parry, E Huws, I Rowlands, C Ll Thomas.

YMDDIHEURIADAU

Cyng K Humphreys, N Highley, N Roberts (Cyngor Sir), D Rees (Cyngor Sir)

Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts JP. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb.

Dechreuwyd gyda cyflwyniad gan Rick Ward ar Nyth Cymru (NEST National Energy Saving Trust). Cynigodd y Cadeirydd diolchiadau i Mr Ward

DATGAN DIDDORDEB - Cyng S Parry cais cynllunio Bro Mebyd, Bryngwran.
Cyng A Michael (cais am sedd wag)

DERBYN COFNODION Y CYFARFOD 17 Medi 2014

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 17 Medi 2014, Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng E Huws yn eilio.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

Llwybr Cyhoeddus Lon Bryngwran Ffarm - Pen Rhiw - Bydd y Cyngor Sir yn cael gwirfoddolwyr i gwneud y gwaith.

Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr - Mae'r cyngor wedi derbyn pris gan H O Davies, Bangor £3876. Bydd y clerwr yn symud ymlaen gyda'r cais am grant.

Plaue Eisteddfod Mon - mewn llaw

Cysgodfannau Bws (peintio) - mae'r clwb ieuencid wedi gwneud y gwaith peintio. Penderfynwyd prynu teledu i'r clwb Cyng I Rowlands yn cynnig a Cyng E Huws yn eilio.

Cysgodfan Bws (glanhau) - mae'r clerwr wedi trefnu gyda'r Probation Service i'r gwaith cael ei wneud o dan "Community Payback"

Cysgodfan Bws (yswariant) - mae'r clerwr wedi derbyn rhifau cofrestru y ceir a bydd yn symud ymlaen gyda cais yswariant.

Y Carreg Filltir - mewn llaw

20 myh wrth ymyl yr ysgol - Bydd angen ail drefnu cyfarfod ar y safle

Parcio Bro Mynydd - mae'r broblem wedi ei datrys

LLOFNOD

(Cadeirydd) 12 Tachwedd 2014

ADRODDIAD Y CADEIRYDD- Dywedodd y cadeirydd bydd gwasanaeth Sul y Cofio yn mynd ymlaen 9 Tachwedd am 11.00. Hefyd, bod angen llinellau

melyn yn Stryd Salem i nadu ceir parcio gan ei fod bron wedi cael damwain ffordd heddiw. Bydd Cyng R G Parry yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir.

GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON

Cynllunio

16C200 cais llawn ar gyfer codi annedd ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau ar dor ger Bro Mebyd, Bryngwran (cynllun diwygiedig) (gadawodd Cyng S Parry yr ystafell tra oedd y cyngor yn trafod y cais yma) - dim sylwadau.

16C145/SCR Barn sgrinio ar gyfer codi 10 annedd fforddiadwy ynghyd a chreu ffordd ystad newydd a gwaith draenio cysylltiedig ar dir ger Bro Mynydd, Bryngwran a 16C145H cais llawn ar gyfer codi 10 annedd fforddiadwy ynghyd a chreu ffordd ystad newydd a gwaith draenio cysylltiedig ar dir ger Bro Mynydd, Bryngwran - dim sylwadau arwahan i gofyn am amod bod y palmant yn cael ei ymestyn o dai cyngor Bro Mynydd (y rhai yn Lon Salem).

Fforwm Cynllunio 13.11.14 - bydd y Cadeirydd yn mynychu'r cyfarfod

Priffyrdd

Gorchymyn traffig dros dro (gwybodaeth yn unig)

GOHEBIAETH YCHWANEGOL

S Owens - y maes chwarae Darllenwyd llythyr gan Ms Owen yn dweud bod rhai ochrau ar y ddaear (Rims pren) o gwmpas y matiau wei dod o'u gilydd ac y nachos pryder petai plentyn yn disgyn ac yn brifo arnynt. Bydd y clerc yn trefnu cael pris am symud y matiau a llenwi'r twll á pridd.

R Gordon Roberts Laurie & Co - gweler uchod

Grwp Cynefin - (gwybodaeth yn unig - grantiau)

MATERION ARIANNOL

Penderfynwyd talu y canlynnol - Torch - sul y Cofio £20.00, Hacker Young £246.00, costau y cadeirydd £16.89

MATERION ERAILL

Cais am sedd wag - Darllenwyd cais gan Mrs Debby Michael am y sedd wag (gadawodd Cyng A Michael yr ystafell tra oedd y cyngor yn trafod y cais yma). Penderfynwyd derbyn y cais.

Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Bryngwran. Bydd Cyng E Huws yn cynrychioli y Cyngor Cymuned o hyn ymlaen (yn lle Cyng A Michael)

Holyhead Mail - Darllenwyd ebost gan y Mail yn dweud "Yn anffodus oherwydd fod lle'n tueddu i fod yn brin, rydym wedi dechrau polisi newydd o gadw adroddiadau i tua 100 gair neu lai. (Angladdau yw'r un eithriad i'r rheol yma). Mae adroddiadau cyngor yn tueddu o'u natur i fod yn bethau gweddol faith, felly mae'n debyg mai'r ffordd ymlaen yw rhoi ryw ychydig o fanylion fel dyddiad a lle'r cyfarfod, a gwefan er mwyn i'r rhai gyda gwir ddiddordeb allu darllen yr adroddiadau llawn"